**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru
Is-adran Arloesi'r Gweithlu, Cymorth y Gweithlu a Chymorth Corfforaethol
Llywodraeth Cymru

Trwy e-bost: nhsbursary@llyw.cymru

22/01/2026

Annwyl Gyfaill,

**Ymgynghoriad: llunio dyfodol cynllun bwrsariaeth GIG Cymru**

Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar y cynllun dan sylw yng nghyd-destun y Gymraeg.

Rhan annatod o sicrhau gofal effeithiol ac o ansawdd yw darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae strategaeth *Mwy na Geiriau* Llywodraeth Cymru yn tanlinellu egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, sef bod darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn gorfod cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn rhagweithiol, heb i'r claf orfod gofyn amdanynt. Elfen hanfodol o lwyddiant y strategaeth hon yw sicrhau gweithlu iechyd a gofal â sgiliau Cymraeg.

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod ystod o ddyletswyddau ar fyrddau iechyd o safbwynt darparu gwasanaethau dwyieithog. Efallai mai un o'r safonau pwysicaf yn y cyd-destun hwn yw safon 110 sy'n gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd i gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd nodi'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn cynyddu eu capasiti i gynnal ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhan allweddol o gynyddu'r capasiti hwn yw cynllunio gweithlu dwyieithog. Mae nifer o safonau eraill hefyd yn ymwneud yn benodol â chynllunio'r gweithlu, gan gynnwys meithrin sgiliau Cymraeg y gweithlu a hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Mae llawer o waith da eisoes yn digwydd yn y cyd-destun hwn. Gwyddom fod Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) eisoes yn cynnwys y Gymraeg fel maen prawf wrth gomisiynu contractau addysg proffesiynol mewn nifer o feysydd iechyd a gofal. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig cyrsiau Cymraeg Gwaith i weithwyr iechyd. Ar lefel addysg drydyddol, gyda chymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae'r

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu ar gyrsiau iechyd a gofal. Cynigir cefnogaeth bwysig i fyfyrwyr â sgiliau Cymraeg trwy ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac i ddarpar fyfyrwyr â sgiliau Cymraeg trwy'r cynlluniau Doctoriaid Yfory a Gweithwyr Iechyd Yfory.

Trafodir yn y ddogfen ymgynghori yr amod i fyfyrwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru weithio yng Nghymru am hyd at ddwy flynedd ar ôl graddio. Gofynnir a yw ymatebwyr yn cytuno â'r gofyniad hwn (Cwestiwn 8). Rydym yn cefnogi'r amod hwn,  Trafodir hefyd yn y ddogfen ymgynghori nad oes rhaid i fyfyrwyr meddygol a deintyddol sy'n derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl graddio. Gofynnir a yw ymatebwyr yn cytuno â'r eithriad hwn (Cwestiwn 9). Nid ydym yn cytuno â'r eithriad hwn, Yn hytrach, credwn y dylai myfyrwyr meddygol a deintyddol, yn ogystal â myfyrwyr gofal iechyd proffesiynol, weithio yng Nghymru ar ôl graddio. Byddai hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd siaradwyr Cymraeg sydd wedi eu hyfforddi yng Nghymru, ac o bosibl trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ymuno â'r gweithlu ac yn darparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion.

Ein dealltwriaeth ni yw bod y fwrsariaeth dan sylw ar gael ar gyfer unigolion sy'n astudio yn Nghymru, er nad o bosibl bod yr unigolion hyn yn dod o Gymru yn wreiddiol. Yn amlwg mae hyn yn hanfodol er mwyn denu gweithlu iechyd i Gymru ac i sicrhau gwasanaethau gwell i bobl Cymru. Er hyn, byddem â diddordeb deall a oes mwy y gellid ei wneud er mwyn annog pobl o Gymru, a siaradwyr Cymraeg yn benodol, i fanteisio ar y fwrsariaeth ac i ddewis astudio ym maes iechyd a gofal yng Nghymru. Er enghraifft, efallai y byddai modd tynnu sylw at y gefnogaeth ehangach sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg drwy ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg, a thrwy hynny sicrhau bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn hyfforddi i weithio yn y sector iechyd a gofal.

Dylem hefyd nodi ein bod yn ymwybodol o sefyllfaoedd diweddar lle mae myfyrwyr sydd wedi derbyn bwrsariaeth y GIG wedi methu cael lleoliadau gwaith yn dilyn eu hyfforddiant a'u bod wedi gorfod chwilio am swyddi y tu allan i Gymru. Mae hyn, wrth gwrs, yn peryglu gweithredu'r amod a osodir arnynt o safbwynt eu bwrsariaeth ac mae hefyd yn destun pryder inni fod gweithwyr iechyd sy'n medru'r Gymraeg yn ymadael â Chymru ac felly ddim ar gael i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Dylid sicrhau nad yw sefyllfa o'r fath yn codi eto yn y dyfodol.

Mae'n hollbwysig cynnal momentwm y camau cadarnhaol mewn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn y maes iechyd a gofal er mwyn datblygu gweithlu cynyddol ddwyieithog. Un ffordd o wneud hyn yw cynnig cymhelliad cryf i fyfyrwyr a hyfforddwyd yng Nghymru, llawer ohonynt â sgiliau Cymraeg, ymuno â gweithlu iechyd a gofal Cymru ar ôl graddio. Byddai hyn yn adeiladu ar y buddsoddiad mewn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a'r cynllun bwrsariaeth ei hun.

Gobeithio y bydd y sylwadau uchod o gymorth i'r ymgynghoriad.

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg